

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1094 (Cy. 260)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

ANIFEILIAID, CYMRU

**Rheoliadau'r Fasnach mewn
Anifeiliaid a Chynhyrchion
Perthynol (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio diffygion yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252) ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i ymadael â'r UE. Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodlen 5 i Rheoliadau 2011 er mwyn newid y dyddiad y mae'r gofynion hysbysu trosiannol ymlaen llaw ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn gymwys ohono o 1 Hydref 2021 i 1 Ionawr 2022 ac i ddileu'r gofyniad i gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid ddod gyda'r dystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnforion trydydd gwledydd cyn diwedd y cyfnod graddoli trosiannol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1094 (Cy. 260)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau'r Fasnach mewn
Anifeiliaid a Chynhyrchion
Perthynol (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021

Gwnaed 27 Medi 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 28 Medi 2021

Yn dod i rym 29 Medi 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd

(1) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), a pharagraff 53(2) o Ran 2 o Atodlen 5 iddi.

Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad⁽¹⁾.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Medi 2021.

Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011⁽²⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 5—

- (a) ym mharagraff 5(3), yn lle “1 Hydref 2021” rhodder “1 Ionawr 2022”;
- (b) ym mharagraff (6)—
 - (i) hepgorer is-baragraff (1)(c);
 - (ii) yn is-baragraff (2) hepgorer “ac (c)”.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
27 Medi 2021

(1) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodwyd rheoliad 26(3) gan reoliad 19 o O.S. 2020/1612 (Cy. 337). Mewnosodwyd Atodlen 5 gan reoliad 32 o O.S. 2020/1612 (Cy. 337). Diwygiwyd paragraffau 5(3) a 6(1)(c) o Atodlen 5 gan reoliad 2 o O.S. 2021/384 (Cy. 122). Diwygiwyd rheoliad 26(3) a pharagraffau 5(3) a 6(1)(c) o Atodlen 5 gan O.S. 2021/847 (Cy. 197). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.